# Y Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion

## Taflen ffeithiau IOPC

### Beth yw Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024?

Mae rhan un o *Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion (VPA) 2024* (y Ddeddf) yn cyflwyno mesurau i hyrwyddo a gwella hawliau dioddefwyr a amlinellir yn y Cod Dioddefwyr a sicrhau bod asiantaethau cyfiawnder troseddol yn cyflawni'r hawliau hyn. Rhaid i IOPC gydymffurfio â'r Ddeddf a'r Cod Dioddefwyr wrth gynnal ymchwiliad troseddol.

Mae rhagor o wybodaeth am y Ddeddf ar gael yn y cylchlythyr perthnasol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y dudalen hon ac yn nodiadau esboniadol y Ddeddf.

Daeth y rhan fwyaf o ran un y Ddeddf i rym ar 29 Ionawr 2025. Mae'r daflen ffeithiau hon yn trafod sut mae'r Ddeddf yn berthnasol i IOPC. Bydd yn cael ei diweddaru wrth i ragor o wybodaeth ddod i law.

### Pwy sy'n cael ei ddiffinio fel dioddefwr o dan y Ddeddf?

Cyflwynodd y Ddeddf ddiffiniad diwygiedig o ddioddefwr sydd, yn gryno, yn cynnwys pobl sydd wedi dioddef niwed oherwydd:

- eu bod wedi bod yn destun ymddygiad troseddol
- eu bod wedi gweld, clywed neu brofi ymddygiad troseddol yn uniongyrchol pan ddigwyddodd yr ymddygiad hwnnw
- oherwydd bod aelod agos o'r teulu wedi marw o ganlyniad uniongyrchol i ymddygiad troseddol
- oherwydd eu bod yn blentyn ac yn ddioddefwr cam-drin domestig, sy'n ymddygiad troseddol

Mae niwed yn cynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol a cholled economaidd.

Mae ymddygiad troseddol yn golygu ymddygiad sy'n drosedd.

## Beth yw'r Cod Dioddefwyr?

Mae'r Cod Ymarfer Dioddefwyr, a elwir hefyd y Cod Dioddefwyr, yn gyfarwyddyd sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Mae'n nodi'r gwasanaethau a'r safonau gofynnol y mae'n rhaid i sefydliadau yng Nghymru a Lloegr eu darparu i ddioddefwr trosedd. Rydym ni'n un o'r sefydliadau hyn, a'r heddlu yn un arall.

## Ydy'r Cod Dioddefwyr yn berthnasol o fewn ymchwiliadau ac adolygiadau camymddwyn IOPC?

Rhaid i IOPC gydymffurfio â'r Ddeddf a'r Cod Dioddefwyr wrth gynnal ymchwiliad troseddol ond, os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os ydych chi'n teimlo bod angen rhagor o gymorth neu wybodaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu â'ch pwynt cyswllt IOPC.

## Pa hawliau sydd gan ddioddefwyr o dan y Cod Dioddefwyr a Deddf 2024?

Mae 12 prif hawl yn y cod. Mae'r rhain yn ymwneud â phethau fel sicrhau bod dioddefwr/goroeswr yn cael gwybodaeth am yr ymchwiliad, y broses dreial a'r canlyniad, a'u hawl i gael eu hatgyfeirio i wasanaethau cymorth.

Efallai y byddwch hefyd yn gymwys i gael hawliau uwch o dan rai amgylchiadau.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys esboniad llawn o bob hawl a hawliau uwch ar gael yma.

## Pwy arall sydd â hawliau o dan y Cod Dioddefwyr?

Gall rhywun fod â hawliau o dan y cod os ydyn nhw'n:

a) rhiant neu'n warcheidwad i'r dioddefwr os yw'r dioddefwr o dan 18 oed, neu'n
b) llefarydd enwebedig ar ran y teulu os oes gan y dioddefwr amhariad meddyliol neu os yw wedi'i anafu mor ddifrifol yn sgil trosedd fel nad yw'n gallu cyfathrebu neu nad oes ganddo'r galluedd i wneud hynny.

## Sut alla i gwyno os ydw i'n teimlo nad yw fy hawliau'n cael eu cynnal o dan y Cod Dioddefwyr a Deddf 2024 mewn ymchwiliad gan IOPC?

Mae gan ddioddefwyr a goroeswyr hawl i gwyno os nad ydyn nhw'n teimlo bod eu hawliau'n cael eu cynnal yn unol â'r Cod Dioddefwyr. Yn y lle cyntaf, os ydych chi'n teimlo'n gyfforddus i wneud hynny, dylech godi'r mater gyda thîm yr ymchwiliad fel y gallan nhw eich cynorthwyo'n uniongyrchol.

Os hoffech wneud cwyn, gallwch wneud hynny drwy'r dudalen Adborth am ein gwasanaeth.

Sylwch - dim ond ar gyfer cwynion IOPC mae hyn. Os ydych am gwyno nad yw'r heddlu'n cynnal eich hawliau, cysylltwch yn uniongyrchol â gwasanaeth yr heddlu neu'r sefydliad yr hoffech gwyno amdano.

## Ble alla i gael cymorth ychwanegol i'm helpu yn ystod fy nghysylltiad â IOPC?

Gallai IOPC eich cyfeirio at wasanaethau cymorth lleol a chenedlaethol priodol a pherthnasol, yn dibynnu ar eich anghenion. Cysylltwch â'ch pwynt cyswllt yn IOPC am ragor o fanylion. Yn gyffredinol, dyma rai gwasanaethau cymorth defnyddiol:

- Eich meddyg teulu a'ch gwasanaeth y GIG.
- Bydd gwefan eich Awdurdod Lleol (cyngor) yn cynnwys gwybodaeth am gymorth lleol.
- Y Samariaid sydd ar gael 24/7 i siarad ag unrhyw un sydd angen cefnogaeth.
- Cymorth i Ddioddefwyr sy'n cynnig cyngor annibynnol a chyfrinachol am ddim yn dilyn trosedd.
- Gofal mewn Galar Cruse sy'n darparu cymorth a chyngor mewn profedigaeth.
- Inquest sy'n darparu arbenigedd ar farwolaethau ac ymchwiliadau sy'n gysylltiedig â'r wladwriaeth i bobl mewn profedigaeth.
- Mae'r Victims Commissioner hefyd yn darparu cyngor annibynnol i ddioddefwyr.

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2025

© IOPC 2025

This is licensed under the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated.

This does not include material belonging to third parties.
Authorisation to use such material must be obtained from the copyright holders concerned.


I ddysgu mwy am ein gwaith neu ofyn am gopi o'r adroddiad mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd:


**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)**
**10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU**
Ffôn: 0300 020 0096
E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk/cy**
Testun Relay: **18001 020 8104 1220**


Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg
We welcome telephone calls in Welsh